Arweiniad atodol ar gyfer arolygu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mai 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL.
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddywr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Cynnwys **Tudalen**

1 Cyflwyniad **1**

2 Defnyddio'r cwestiynau allweddol i arfarnu CBC **2**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 2

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 3

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag nghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 3

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth I ddysgwyr? 4

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 4

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 4

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithiol y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 5

Atodiad 1: Gofynion Bagloriaeth Cymru

Atodiad 2: Ysgolion sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau peilot CBC

Atodiad 3: Ysgolion sy'n cymryd rhan yng nghyfnod cyntaf rhaglen dreigl CBC (o fis Medi 2007)

Beth yw eu diben?

Rhoi arweiniad pellach i arolygwyr ar sut i arolygu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ar y cyd â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Uwchradd.

Ar gyfer pwy y maent wedi'u bwriadu?

Pob aelod o dimau arolygu ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig.

Pryd y dylid dechrau defnyddio'r canllawiau?

Ar unwaith

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2007

1 Cyflwyniad

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yn cynnwys dwy ran: craidd a set o ddewisiadau.

Mae pedwar cydran i'r craidd: medrau allweddol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, addysg bersonol a chymdeithasol, a gwaith ar Gymru, Ewrop a'r Byd, gan gynnwys ymchwiliad unigol ac astudio iaith dramor mewn modiwl iaith 20 awr.

Mae'r set o ddewisiadau yn cynnwys y cyrsiau/rhaglenni y mae'r dysgwyr yn eu dilyn a gallai'r rhain gynnwys cymwysterau TGAU, TGAAU, UG/Safon Uwch, TAA, CGCC, CGC neu BTEC.

Mae CBC wedi cael ei gymeradwyo yn genedlaethol a gall dysgwyr ymgymryd ag ef ar dair lefel: sylfaen (lefel 1), canolradd (lefel 2) ac uwch (lefel 3).

Er mwyn i ddysgwr allu ennill y diploma perthnasol, rhaid iddo ennill nifer benodol o gymwysterau yn y craidd ac yn y set o ddewisiadau ar y lefel briodol.

Gweler Atodiad 1 am ofynion manwl CBC ar bob lefel.

Dechreuodd cynllun peilot o CBC uwch a chanolradd yn 2003 ac mae mwy a mwy o ysgolion a cholegau addysg bellach wedi ymuno â'r cynllun peilot ers hynny. Ar hyn o bryd, ym mis Rhagfyr 2006, mae 18 o ysgolion uwchradd yn cymryd rhan yng nghyfnod peilot y diplomâu canolradd ac uwch. Dechreuodd cyfnod peilot y diploma sylfaen ym mis Medi 2006.

Gweler Atodiad 2 am restr o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cyfnodau peilot.

Ar 18 Hydref 2006, cyhoeddodd Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y byddai'r broses o roi CBC ar waith yn raddol yn cael ei chynllunio a'i threfnu ym mhob ysgol uwchradd o fis Medi 2007 ymlaen.

Gweler Atodiad 3 am restr o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yng nghyfnod cyntaf y rhaglen dreigl.

2 Defnyddio'r cwestiynau allweddol i arfarnu CBC

Nid oes adran ar wahân o'r adroddiad ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Yn hytrach, rhaid i arolygwyr ddefnyddio'r cwestiynau allweddol i arfarnu ansawdd y gwaith sy'n gysylltiedig â CBC.

Dylid cael arfarniad clir o CBC ym mhob cwestiwn allweddol. Mewn rhai adrannau, fel cwestiwn allweddol 1 a 3, gallai hyn ymestyn i baragraff neu fwy. Mewn adrannau eraill, gallai hyn arwain at un frawddeg, yn enwedig lle mae ansawdd y gwaith yr un fath ag y mae mewn agweddau eraill ar waith ysgol, er enghraifft, ansawdd yr addysgu a'r asesu.

Mae angen i arolygwyr arfarnu ac adrodd ar CBC mewn ysgolion yn ystod y cyfnod peilot. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod cyfranogiad ysgolion yn seiliedig ar gyfnod peilot. Mae'r sector yn dysgu llawer o gyfranogiad ysgolion yn ystod y cyfnod peilot. Mae'n rhan o natur cyfnodau peilot bod ysgolion yn arbrofi ac yn dysgu o'u camgymeriadau. Fodd bynnag, nid oes esgus dros safonau gwaith gwael neu addysgu annigonol.

Er mwyn arfarnu ac adrodd ar y cymhwyster, mae angen i arolygwyr ystyried y cwestiynau a'r materion canlynol pan fyddant yn cynnal arolygiadau o ysgolion:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Mae angen i arolygwyr arfarnu data ar gyrhaeddiad dysgwyr o ran CBC. Mae adroddiadau ar CBC sy'n cynnwys data canlyniadau a chyfartaleddau cenedlaethol ar gael yn http://www.ngfl-cymru.org.uk/wbq-home/wbq-resources-home/reports.htm Mae angen iddynt hefyd edrych ar sampl o sesiynau CBC i farnu ansawdd gwaith dysgwyr. Mae angen i arolygwyr roi sylw penodol i ddatblygiad medrau allweddol dysgwyr.

- Pa gyfran o ddysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus? A yw dysgwyr yn ennill y cymhwyster ar gyfradd dda (h.y. gyda chyfradd llwyddo sydd o leiaf yn gyfartal â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)?

- Mae'n bwysig gofyn i'r ysgol am niferoedd y dysgwyr sy'n ymuno â'r rhaglen ar y dechrau a'i gymharu â'r rheiny sy'n ennill y cymhwyster yn llwyddiannus oherwydd gallai cyfraddau llwyddo guddio'r nifer sy'n tynnu'n ôl o'r cymhwyster ar y ffordd.

- Os yw dysgwyr yn methu ennill y cymhwyster, mae angen i arolygwyr wybod pam mae hyn yn wir. A yw hyn oherwydd eu bod yn methu cyflawni un elfen neu lawer o elfennau? A ydynt yn methu oherwydd nad ydynt yn ennill yr holl ddyfarniadau medrau allweddol sy'n ofynnol?

- Pa gynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud tuag at y cymhwyster ar hyn o bryd? A yw dysgwyr yn cymryd rhan yn dda yn y sesiynau? A ydynt yn eu hystyried yn ddiddorol?

- Pa effaith y mae CBC yn ei gael ar lwybrau dilyniant dysgwyr i astudiaeth bellach neu addysg uwch?

- Beth yw ansawdd gwaith dysgwyr mewn sesiynau CBC, yn y gwaith sy'n gysylltiedig â Chymru, Ewrop a'r Byd ac yn eu hymchwiliadau unigol?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Mae angen i arolygwyr ymweld â sampl o sesiynau CBC i farnu ansawdd yr addysgu a'r asesu.

- Beth yw ansawdd cyffredinol yr addysgu a'r dysgu mewn sesiynau CBC? Pa mor dda y mae athrawon yn cyflwyno agweddau penodol ar y rhaglen CBC, fel Cymru, Ewrop a'r Byd, y modiwl iaith, a medrau allweddol?

- A oes gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i ennill CBC, yr elfennau hynny y maent wedi'u cwblhau yn llwyddiannus a'r rheiny sydd eu hangen arnynt i weithio'n galetach i gyflawni? A ydynt yn cael adborth da ar eu cynnydd?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Bydd angen i arolygwyr gyfweld â nifer y staff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu CBC.

- Pa mor effeithiol yw'r cynllunio ar gyfer rhaglen CBC? Pa mor dda y mae elfennau CBC yn gweddu i'r amserlen ysgol? A oes digon o amser ar gyfer y cymorth tiwtorial sydd ei angen?

- A yw'r ysgol wedi integreiddio pob un o elfennau'r rhaglen CBC yn llwyddiannus i becyn priodol a chydlynus ar gyfer dysgwyr?

- A yw'r trefniadau ar gyfer datblygu medrau allweddol dysgwyr yn gweithio'n dda ac a yw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr ar y trywydd iawn i ennill y medrau allweddol sydd eu hangen arnynt i ennill CBC ar y lefel briodol?

- Pa effaith y mae CBC yn ei gael ar gefnogi llwybrau dilyniant dysgwyr i astudiaeth bellach neu addysg uwch?

- A yw'r ysgol wedi marchnata CBC yn effeithiol i ddysgwyr a rhieni?

- A oes yna ystod dda o weithgareddau allgyrsiol ar waith i gefnogi CBC?

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

- Beth yw ansawdd y cymorth tiwtorial mewn perthynas â CBC? Pa arweiniad a chymorth a gaiff dysgwyr i'w cadw ar y trywydd iawn â holl elfennau'r cymhwyster?

- A oes gweithdrefnau monitro ac olrhain ar waith i wneud yn siŵr bod athrawon a dysgwyr yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud? A yw'r trefniadau hyn yn nodi'n gyflym ac yn effeithiol y dysgwyr hynny a allai fod yn cael trafferth i gyflawni holl elfennau CBC?

- A yw adroddiadau i ddysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid yn rhoi crynodeb clir o ba mor dda y mae dysgwyr yn ei wneud yn y cymhwyster?

- A yw dysgwyr yn cael arweiniad priodol am y cymhwyster cyn iddynt ymgymryd ag ef?

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

- Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn hyrwyddo ac yn rheoli'r broses o gyflwyno CBC? A oes targedau clir ar gyfer cyrhaeddiad mewn perthynas â CBC?

- A oes cynllun manwl ar gyfer gweithredu'r cymhwyster ac a yw staff a llywodraethwyr yn monitro ei lwyddiant yn fanwl?

- A yw'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer arwain a rheoli CBC yn glir ac yn effeithiol? A yw'r rhain yn gweddu'n dda i rolau a chyfrifoldebau eraill yn yr ysgol, er enghraifft, cydlynu medrau allweddol?

- A yw llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o'r cymhwyster, sut mae'r ysgol yn bwriadu ei weithredu, a llwyddiant dysgwyr wrth ennill y cymhwyster?

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

- A yw CBC yn cael ei integreiddio'n llawn i systemau sicrhau ansawdd yr ysgol? A yw'r cydlynydd yn adolygu'r cwrs yn rheolaidd ac yn systematig?

- A yw uwch staff yn cynnal ymweliadau cyfnodol â sesiynau CBC i fonitro eu hansawdd?

- A oes data clir ar gyrhaeddiad (cyfraddau llwyddo a chwblhau'n llwyddiannus) er mwyn i arweinwyr a rheolwyr allu monitro canlyniadau yn drylwyr?

- A yw'r adroddiad hunanasesu yn cynnwys arfarniadau clir o gryfderau a gwendidau'r safonau a'r ansawdd yn y rhaglen CBC?

- A yw cynllun gweithredu'r ysgol yn bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y rhaglen yn glir ac yn effeithiol?

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithiol y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

- A yw uwch reolwyr wedi pennu effaith CBC ar yr ysgol o ran amser cwricwlwm, staffio ac adnoddau?

- A yw'r adeiladau ar gyfer sesiynau CBC yn briodol?

- A yw'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw gyllid ychwanegol a gafodd ar gyfer cymryd rhan yn CBC?

- A yw'r ysgol yn cyflawni gwerth am arian mewn perthynas â CBC?

Cwblhau proffiliau cronfa ddata Athene

Os oes gan yr ysgol ddisgyblion yn dilyn rhaglenni Bagloriaeth Cymru, dylai'r tîm arolygu gael tystiolaeth ar safonau ac addysgu Craidd Bagloriaeth Cymru o arolygu gwersi a gwaith disgyblion. Dylai arolygwyr lenwi adran Craidd Bagloriaeth Cymru proffil cronfa ddata Athene cyn iddynt gyflwyno'r proffil ar gyfer yr ysgol i system Athene. Os nad oes gan yr ysgol unrhyw ddisgyblion yn dilyn rhaglenni Bagloriaeth Cymru adeg yr arolygiad, dylai arolygwyr ddefnyddio'r blychau cwympo ym mhroffiliau Athene i nodi N/A (ddim yn berthnasol) yn y celloedd llwyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gwblhau proffiliau cronfa ddata Athene yn 'Materion Arolygu Ysgolion: Rhifyn Ysgolion Rhif 6' (Estyn, 2005). Mae hwn ar gael ar wefan Estyn: www.estyn.gov.uk

Atodiad 1: Gofynion Bagloriaeth Cymru

Craidd Bagloriaeth Cymru

Mae Craidd Bagloriaeth Cymru yn cynnwys pedair cydran: medrau allweddol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith a Chymru, Ewrop a'r Byd.

Mae chwe chymhwyster medrau allweddol:

- cyfathrebu;
- cymhwyso rhif;
- technoleg gwybodaeth;
- gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun;
- gweithio gydag eraill; a
- datrys problemau.

Caiff cyfathrebu, cymhwyso rhif a thechnoleg gwybodaeth eu hadnabod fel 'y medrau allweddol cyntaf'. Caiff y gweddill eu hadnabod fel 'y medrau allweddol ehangach'.

Rhaid i ddysgwyr ddarparu portffolio tystiolaeth ar gyfer asesiad o bob un o'r chwe medr allweddol.

Y diploma uwch

I ennill y diploma uwch, rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf dau gymhwyster Safon Uwch neu gymwysterau cyfwerth.

Rhaid iddynt hefyd ennill:

- tri medr allweddol ar lefel 3, a rhaid i un ohonynt fod o blith y tri medr allweddol cyntaf;
- tri medr allweddol ar lefel 2;
- adroddiadau boddhaol ar weithio gyda chyflogwr a chyfranogiad cymunedol; a
- chwblhau ymchwiliad unigol boddhaol ar lefel 3.

Y diploma canolradd

I ennill y diploma canolradd, rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf pedwar cymhwyster TGAU gradd A*-C neu gymwysterau cyfwerth.

Rhaid iddynt hefyd ddangos tystiolaeth eu bod wedi dilyn y chwe medr allweddol ac ennill:

- pedwar medr allweddol, gyda dau ar lefel 2 a dau ar lefel 1, gan gynnwys pob un o'r tri medr cyntaf;

- adroddiadau boddhaol ar weithio gyda chyflogwr a chyfranogiad cymunedol; a

- chwblhau ymchwiliad unigol boddhaol ar lefel 2.

Y diploma sylfaen

Mae'r diploma sylfaen wedi'i gynllunio i gyd-fynd â gofynion statudol yng nghyfnod allweddol 4 ac i helpu dysgwyr i fynd ymlaen i'r diploma canolradd ac astudio ôl-16.

Mae'r diploma sylfaen yn darparu'r cyfleoedd a'r profiadau a amlinellir yng nghraidd dysgu 'Llwybrau Dysgu: 14-19' trwy ei elfennau craidd.

Mae rhai gwahaniaethau yn y diploma sylfaen i'w wneud yn addas ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16. Bydd dysgwyr cyn-16 fel arfer yn dilyn y diploma sylfaen dros gyfnod o ddwy flynedd a dysgwyr ôl-16 dros gyfnod o flwyddyn.

Rhaid i ddysgwyr ddangos tystiolaeth eu bod wedi dilyn y chwe medr allweddol ac ennill:

- gwobrau medrau allweddol mewn pedwar o'r chwe maes, gan gynnwys un o'r tri medr cyntaf ar lefel 1;

- ymchwiliad unigol boddhaol ar lefel 1; a

- chyfranogiad mewn datrys problemau grŵp yn seiliedig ar weithgaredd menter tîm.

Atodiad 2: Ysgolion sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau peilot CBC

Canolfannau peilot lefel 2 a 3 (2003)

Ysgol Gyfun Y Barri
Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt
Ysgol Gatholig Cardinal Newman
Coleg Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Uwchradd Pen y Dre
Ysgol Gyfun Sirol Y Porth
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban
Ysgol Sant Cyres

Canolfannau peilot lefel 2 a 3 (2004)

Ysgol Bryn Eilian
Ysgol Brynhyfryd
Ysgol Morgan Llwyd
Ysgol Plasmawr

Canolfannau peilot lefel 2 a 3 (2005)

Ysgol Gyfun Bryntirion
Ysgol Cathays
Ysgol Penglais
Ysgol Tre-gib
Ysgol Rhiwabon
Ysgol Y Preseli

Canolfannau peilot lefel 1 (2006)

Ysgol Gyfun Y Barri
Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt
Ysgol Cardinal Newman
Ysgol Uwchradd Cathays
Ysgol Uwchradd Sirol Y Porth
Ysgol Sant Cyres
Ysgol Bryn Elian
Ysgol Bryntirion
Ysgol Y Preseli
Ysgol Tre-gib

Atodiad 3: Ysgolion sy'n cymryd rhan yng nghyfnod cyntaf rhaglen dreigl CBC (o fis Medi 2007)

Ysgol Lewis i Ferched
Ysgol Lewis, Pengam
Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth
Ysgol Uwchradd Cantonian
Ysgol Pen-coed
Ysgol Gyfun Treorci
Ysgol Uwchradd Gwernyfed
Ysgol Gyfun Y Bont-faen
Ysgol Uwchradd Tyllgoed (Cwmbrân)
Ysgol Uwchradd Prestatyn
Ysgol Bro Morgannwg
Ysgol Glan Clwyd
Ysgol Gyfun Gŵyr
Ysgol Y Strade
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa
Ysgol Uwchradd Alun (Yr Wyddgrug)
Ysgol Gyfun Sant Cenydd
Ysgol Gyfun Bryntyrion
Ysgol Gyfun Gatholig yr Archesgob McGrath
Ysgol Uwchradd Y Rhyl
Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan
Ysgol Tre-gŵyr
Coleg Cymunedol Tonypandy (o fis Medi 2008)

Rhwydwaith Ardal Leol 14-19 Casnewydd:

Ysgol Gyfun Basaleg
Ysgol Gyfun Betws
Ysgol Gyfun Caerllion
Ysgol Gyfun Dyffryn
Ysgol Gyfun Hartridge
Ysgol Gyfun Llyswern
Ysgol Gyfun Sant Joseph
Ysgol Gyfun Sant Julian

Partneriaeth Cynnal:

Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch
Ysgol Uwchradd Caergybi
Ysgol Gyfun Llangefni
Ysgol David Hughes
Ysgol Uwchradd Bodedern
Ysgol Dyffryn Nantlle
Ysgol Syr Hugh Owen

Consortiwm Pontypridd:

Coedylan
Y Ddraenen Wen
Cardinal Newman